

## CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 12

Kirsty Williams AC/AM  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/KW/2475/19

Lynne Neagle, AC  
Cadeirydd y Pwyllgor  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Government.Committee.Business@llyw.cymru

26 Gorffennaf 2019

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mehefin ynghylch lansio ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Ers i'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017, rydym wedi parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a Grŵp Cyflenwi EOTAS i gymryd y camau gweithredu a nodir yn y fframwaith. Yn unol â'ch cais, ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

### Grŵp Cyflenwi EOTAS

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS ei ddiddymu ym mis Mawrth 2017 ac fe'i disodlwyd gan Grŵp Cyflenwi EOTAS. Cadeirydd y Grŵp yw Dr Brett Pugh, cyn-Gyfarwyddwr Gweithlu a Safonau Ysgolion, Llywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Grŵp yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, rhai o aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS blaenorol, Estyn, darparwyr EOTAS a rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol ac unedau cyfeirio disgyblion.

Diben y Grŵp Cyflenwi yw helpu i ddatblygu polisi a rhoi'r cynigion a nodir yn y Fframwaith Gweithredu ar waith, a bod yn 'ffrind beirniadol' i Lywodraeth Cymru. Ers iddo gael ei sefydlu, mae wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

- cyhoeddi Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion<sup>1</sup>
- ymchwil i arferion cofrestru disgyblion EOTAS<sup>2</sup>

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/llawlyfr-ar-gyfer-pwyllgorau-rheoli-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf>

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-ymarferion-cofrestru-disgyblion-awdurdod-leol-ar-gyfer-dysgwyr-syn-defnyddio-darpariaeth-pru-ac-eotas.pdf>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- adolygiad o arferion cyfeirio EOTAS<sup>3</sup>.

Rydym yn adolygu cylch gwaith y Grŵp er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ei aelodau. Gallaf roi copi i'r Pwyllgor o'r cylch gwaith newydd ar ôl i'r Grŵp ei gwblhau.

## **Gweithredu**

Fel y gwyddoch, caiff y Fframwaith ei roi ar waith fesul cam, gyda chamau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Mae'r camau gweithredu byrdymor yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth er mwyn helpu i ddatblygu polisi.

Mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd i drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer comisiynu darpariaeth EOTAS. Disgwylir i'r adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil gael ei gyhoeddi yn yr hydref. Mae Estyn hefyd yn cynnal adolygiad thematig byrdymor sy'n edrych ar ba mor gyffredin yw dadgofrestru a'i effaith, a disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Medi.

Gyda'r gwaith o lunio llinell sylfaen wedi'i gwblhau, rydym bellach mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu tymor canolig a hirdymor a nodir yn y Fframwaith. Ar hyn o bryd, mae sylw'n cael ei roi i'r meysydd allweddol canlynol:

1. gwella mynediad disgyblion EOTAS at y cwricwlwm
2. gwella'r trefniadau i gomisiynu darpariaeth EOTAS a sefydlu paneli cyfeirio EOTAS
3. safoni arferion cofrestru disgyblion EOTAS.

## **1. Gwella mynediad disgyblion EOTAS at y cwricwlwm**

Mynediad at y cwricwlwm yw un o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau disgyblion sy'n mynychu darpariaeth EOTAS. Mae deilliannau academaidd plant sy'n cael darpariaeth EOTAS yn wannach o gymharu â'u cyfoedion mewn addysg brif ffrwd. Yn ogystal, mae diffyg mynediad at y cwricwlwm yn ei gwneud hi'n anodd i ddysgwyr EOTAS ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd a phontio i addysg ôl-16.

Mae'r cwricwlwm newydd wedi cael ei lunio i fod yn gynhwysol ac yn addas i bob dysgwr er mwyn ei alluogi i wneud cynnydd mewn perthynas â'r pedwar diben. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n cael darpariaeth EOTAS.

Bydd y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r cwricwlwm newydd yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer disgyblion EOTAS yn glir. Er mwyn helpu unedau cyfeirio disgyblion i gynnig cwricwlwm ehangach i ddisgyblion, bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo sy'n annog unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion i gydweithio er mwyn diwallu anghenion disgyblion.

## **2. Safoni'r trefniadau i gomisiynu gwasanaethau EOTAS a sefydlu paneli cyfeirio EOTAS**

Yn 2016, nododd Estyn<sup>4</sup> fod rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau EOTAS gan ddarparwyr preifat, heb wybod eu bod yn cynnig darpariaeth sydd heb ei chofrestru ac sydd, o bosibl, yn anghyfreithlon. Canfu'r adroddiad hefyd nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwyllo darpariaeth EOTAS na darpariaeth amgen yn ddigon manwl ac mai ychydig iawn ohonynt sy'n gwybod faint o ddisgyblion sy'n cael darpariaeth amgen amser llawn oddi ar y safle a gomisiynir yn uniongyrchol gan ysgolion.

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-baneli-atgyfeirio-awdurdod-lleol-aneu-ymarferion-i-ddysgwyr-syn-cael-mynediad-at-ddarpariaeth-eotas.pdf>

<sup>4</sup> <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20cy.pdf>

Mae pryder, felly, fod angen atgyfnerthu'r trefniadau comisiynu sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â diogelu, a phriodoldeb ac ansawdd y lleoliad a'r addysg. Yn ogystal, fel y nodir yn y Fframwaith Gweithredu, mae pryder cyffredin yn y sector EOTAS nad yw'r broses cyfeirio at ddarpariaeth EOTAS yn ddigon cadarn a bod arferion yn amrywio ledled Cymru.

Er mwyn atal arferion comisiynu gwael ac atgyfnerthu prosesau cyfeirio, mae'r Fframwaith Gweithredu yn cynnig y dylai awdurdodau lleol sefydlu fframweithiau comisiynu a phaneli cyfeirio; ac y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ar sefydlu paneli EOTAS yn ogystal â gweithdrefnau cyfeirio ac ailintegreiddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu a chyhoeddi adolygiad o arferion cyfeirio EOTAS ac mae gwaith ymchwil yn mynd rhagddo i geisio deall y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i gomisiynu darpariaeth EOTAS. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio er mwyn helpu i ddatblygu canllawiau ar sefydlu paneli cyfeirio a chomisiynu darpariaeth EOTAS.

### **3. Safoni arferion cofrestru disgyblion EOTAS**

Mae'r ffaith nad oes arfer safonol ar gael i gofrestru disgyblion EOTAS, ynghyd â gwybodaeth anghywir sy'n deillio o'r ffaith nad yw'r holl drefniadau presennol yn gweithio yn ôl y bwriad bob amser, yn golygu bod data am bresenoldeb a chyflawniad disgyblion sy'n mynychu ysgolion a darpariaeth EOTAS yn annibynadwy. Felly, mae'n anodd monitro deilliannau disgyblion sy'n cael darpariaeth EOTAS a dwyn sefydliadau unigol i gyfrif am eu deilliannau.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad annibynnol o arferion awdurdodau lleol i gofrestru disgyblion EOTAS. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i lywio canllawiau er mwyn sicrhau bod dull safonol yn cael ei ddefnyddio i gofrestru disgyblion EOTAS. Byddwn yn disgwyl i baneli cyfeirio EOTAS gyfeirio at y canllawiau wrth roi cyngor i awdurdodau lleol ar statws cofrestru disgyblion EOTAS penodol.

### **Helpu plant a phobl ifanc i aros mewn addysg brif ffrwd**

Yn ogystal â gweithredu polisi sy'n ceisio gwella deilliannau plant a phobl ifanc sy'n derbyn darpariaeth EOTAS, mae camau'n cael eu cymryd hefyd i helpu plant a phobl ifanc i aros mewn addysg brif ffrwd, gan gynnwys:

- defnyddio'r ymagwedd newydd at atebolrwydd i leihau'r cymhellion i ysgolion ac awdurdodau lleol ddadgofrestru disgyblion
- datblygu fframwaith fel rhan o'r dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles, a fydd yn rhoi canllawiau i ysgolion ar sut i wreiddio lles ym mhob rhan o'r ysgol
- helpu ysgolion i ddeall pam bod gan blant anawsterau yn yr ysgol a all wneud iddynt ymddwyn mewn ffordd sy'n arwain at eu gwahardd
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a fydd yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar a bod y cymorth cywir ar gael iddo.

### **Yr ymagwedd newydd at atebolrwydd**

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i'w cyflwyno yn lle rhannau o'r system atebolrwydd bresennol. Er bod llawer o arfer da i'w weld mewn defnyddio ystod o ddata i lywio gwaith gwerthuso, cydnabyddwn fod pwyslais anghymesur wedi cael ei roi dros y blynyddoedd diwethaf ar un neu ddau fesur perfformiad cul wrth ddwyn ysgolion i gyfrif. Drwy'r trefniadau newydd, rydym yn cynnig cael gwared ar y pwyslais hwn, sy'n gallu achosi canlyniadau anfwriadol, a chyflwyno ystod ehangach o

ddangosyddion yn ei le sy'n rhoi darlun gwell o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

O dan ein system ddiwygiedig, bydd pob plentyn yn cyfrif a chaiff ysgolion eu gwerthuso ar sail y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob plentyn. Mae mesurau perfformiad dros dro a gyflwynwyd ar gyfer 2019 yn symud y pwyslais oddi ar nifer fach o ddangosyddion trothwy cul a'r canlyniadau anfwriadol sydd wedi deillio ohonynt, fel y ffocws ar y ffin graddau C/D, tuag at set o fesurau a fydd yn hyrwyddo uchelgeisiau uwch i bob dysgwr. Y gwahaniaeth allweddol gyda'r mesurau newydd yw y byddant yn seiliedig ar bwyntiau – cyfartaledd ysgol o sgoriau pwyntiau dysgwyr unigol, yn hytrach na chanran sy'n cyrraedd lefel drothwy sylfaenol. Mesur perfformiad yw'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio, sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer dyfarniadau gorau pob disgybl unigol yn y garfan.

Yn y dyfodol, byddwn yn cynnal adolygiad llawn o ddangosyddion perfformiad, beth y byddant yn ei gynnwys a sut y cânt eu defnyddio. Dros y chwe mis nesaf, byddwn yn dechrau prosiect ymchwil annibynnol i adolygu mesurau perfformiad:

- yr ystod o wybodaeth
- y dangosyddion a'r adroddiadau sydd eu hangen at ddibenion hunanwerthuso ac atebolrwydd
- sut mae cymwysterau neu wybodaeth arall am gyrhaeddiad yn cyfrannu at unrhyw ddangosyddion cyrhaeddiad
- sut y caiff gwybodaeth ei phrosesu a'i darparu
- agweddau cysylltiedig eraill ar y system.

Bydd penderfyniadau am ddangosyddion yn y dyfodol, a'r systemau cysylltiedig a gyflwynir yn lle'r trefniadau dros dro, yn seiliedig ar yr adolygiad hwn ar y cyd â'r ymatebion a geir i ymgynghoriad llawn ag ysgolion a grwpiau o randdeiliaid allweddol. Caiff lleoliadau EOTAS, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

O safbwynt disgyblion EOTAS yn benodol, rydym wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer:

- cofnodi effeithiau darpariaeth EOTAS ar ddeilliannau disgyblion yn nhermau mesurau cyrhaeddiad cyffredinol er mwyn llywio cynlluniau gwella ysgolion
- dwyn i gyfrif yr ysgolion/ALlau hynny oedd â disgyblion EOTAS ar y gofrestr, mewn ffordd sy'n unol â'r diwygiadau sy'n mynd rhagddynt a'r gwaith i ddatblygu'r trefniadau gwerthuso a gwella.

### **Dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles**

Mae lles emosiynol, corfforol a meddyliol pob plentyn wrth wraidd ein system addysg yng Nghymru. Mae plant a phobl ifanc mewn lleoliadau EOTAS ymhlith rhai o'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed. Maent yn aml yn dod o gefndiroedd helbulus ac anodd a gallant brofi tor-perthynas o fewn y teulu a phroblemau iechyd meddwl yn fynych. Bydd dull gweithredu ysgol gyfan yn sicrhau bod iechyd meddwl a lles yn dod yn rhan ganolog o'r ffordd y mae ysgolion yn gweithio ac yn cyffwrdd â llawer o agweddau gwahanol ar fywyd ysgol. Agwedd bwysig ar y rhaglen waith yw datblygu Fframwaith er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu eu dull gweithredu ysgol gyfan eu hunain. Rhan bwysig o'r Fframwaith fydd y cymorth a rown i ysgolion ddefnyddio ymyriadau cynhwysol a phenodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn datblygu gwydnwch a helpu'r rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl. Gobeithio y bydd yr ymyriadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o symud i ddarpariaeth EOTAS ac yn lleihau'r angen posibl i'w tynnu o ysgol brif ffrwd.

**Helpu ysgolion i ddeall pam bod gan blant anawsterau yn yr ysgol a all wneud iddynt ymddwyn mewn ffordd sy'n arwain at eu gwahardd**

Rydym yn helpu ysgolion i ddeall pam bod gan blant anawsterau yn yr ysgol a all wneud iddynt ymddwyn mewn ffordd sy'n arwain at eu gwahardd, gan gynnwys ein gwaith i fynd i'r afael â phrofiadau andwyol yn ystod plentyndod (ACE). Rydym wedi helpu i greu Canolfan Gymorth ACE i Gymru, sydd wedi datblygu rhaglen o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod i ysgolion – mae'r rhaglen wrthi'n cael ei chyflwyno ledled Cymru. Erbyn mis Mawrth 2020, bydd pob ysgol yng Nghymru wedi gallu cael yr hyfforddiant hwn. Bydd yr hyfforddiant yn galluogi ysgolion i ddeall ymddygiad a defnyddio arferion sy'n seiliedig ar brofiadau andwyol yn ystod plentyndod er mwyn helpu plant sy'n wynebu risg o gael eu gwahardd.

Mae cyfran sylweddol o'r £20m sydd gan y Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cael ei defnyddio i gefnogi gweithgarwch i wella sgiliau'r gweithlu er mwyn adnabod a diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn well. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith y rhai sy'n gweithio ym maes addysg drwy ddatblygu canllawiau a phecynnau hyfforddi arbenigol.

### **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. O dan y system newydd, bydd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael darpariaeth EOTAS yn derbyn cynllun datblygu unigol sy'n nodi eu hanghenion a'r cymorth sydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

### **Cynhadledd addysg heblaw yn yr ysgol**

Cynhelir y gynhadledd EOTAS flynyddol ar 24 Medi. Mae'r agenda yn cynnwys cyflwyniad gan Estyn ar ganfyddiadau ei adolygiad o ddadgofrestru a sesiwn grŵp ar ddyletswyddau ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyflwynir fel rhan o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Yn ogystal, bydd cyfle i'r sawl sy'n bresennol rwydweithio â sefydliadau a gaiff eu cynrychioli yn y farchnad. Mae hyn yn cynnwys Gyrfa Cymru, Estyn, GIG Cymru (rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc) a swyddogion o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**  
Y Gweinidog Addysg

<b>Gweithrediad tymor hir (T.B)</b>			
<b>Darpariaeth allweddol</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam arfaethedig</b>	<b>Update</b>
T.B.1 Paneli mynediad	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Llywodraeth Cymru i gomisiynu dadansoddiad o baneli mynediad/paneli atgyfeirio ALI.	Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2018. <a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-baneli-atgyfeirio-awdurdod-lleol-aneu-ymarferion-i-ddysgwyr-syn-cael-mynediad-at-ddarpariaeth-eotas.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-baneli-atgyfeirio-awdurdod-lleol-aneu-ymarferion-i-ddysgwyr-syn-cael-mynediad-at-ddarpariaeth-eotas.pdf</a>
T.B.2 Access panels	Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau i hybu gwaith consortiwm effeithiol ar lefel awdurdodau lleol i rannu strategaethau ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A12) Dylid casglu a lledaenu enghreifftiau o strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A20)	Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o'r arferion gorau wrth gyfeirio at Addysg Heblaw yn yr Ysgol a gweithdrefnau ailintegreiddio	Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r canllawiau atgyfeirio a chomisiynu.
T.B.3 Framwaith comisiynu	Annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu nodau a dibenion clir ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Caeredin: A15) Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9)	Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil i'r arferion gorau ar gyfer fframweithiau comisiynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.	Mae ymchwil i ddulliau gweithredu presennol o ran comisiynu darpariaeth EOTAS yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith maes bron wedi ei gwblhau a disgwylir cyhoeddi adroddiad o'r canfyddiadau yr hydref hwn.
T.B.4 Cymorth i'r pwyllgorau rheoli	Gweithio gyda chonsortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (Estyn 015: A7)	Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o dan arweiniad CLILC o anghenion hyfforddi pwyllgorau rheoli.	Cyhoeddwyd ym mis Awst 2017 <a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dadansoddiad-o-anghenion-hyfforddi-a-datblygu-pwyllgorau-rheoli-uned-cyfeirio-disgyblion.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dadansoddiad-o-anghenion-hyfforddi-a-datblygu-pwyllgorau-rheoli-uned-cyfeirio-disgyblion.pdf</a>
T.B.5 Cymorth i'r pwyllgorau rheoli	Gwneud pwyllgorau rheoli'n statudol a chyhoeddi canllawiau ategol (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A8)	Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai ehangu'r cymorth sydd ar gael, drwy gyfrwng gwahanol randdeiliaid, i aelodau pwyllgorau rheoli.	Bydd canfyddiadau adolygiad cylch gwaith Estyn i effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn llywio'r modd yr ydym yn ystyried unrhyw bwyllgorau rheoli ychwanegol.
T.B.6 Cymorth i'r pwyllgorau rheoli	Gweithio gyda chonsortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (Estyn 015: A7)	Llywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli.	Bydd Estyn yn gwneud adolygiad cylch gwaith o effeithlonrwydd pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion.
T.B.7 Data a gwybodaeth	Nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda hwy (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A15)	Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi data cofrestru a gwahardd disgyblion.	Bydd y cam hwn yn digwydd ar ôl cyflwyno system gofrestru gyffredinol ar gyfer cofrestru disgyblion EOTAS.
T.B.8 Data a gwybodaeth	Nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda hwy (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A15)	Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o arferion cofrestru disgyblion ledled Cymru er mwyn gallu casglu data'n well a sefydlu'r arferion gorau o ran atebolrwydd a chanlyniadau.	Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2018 <a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-ymarferion-cofrestru-disgyblion-awdurdod-lleol-ar-gyfer-dysgwyr-syn-defnyddio-darpariaeth-pru-ac-eotas.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-ymarferion-cofrestru-disgyblion-awdurdod-lleol-ar-gyfer-dysgwyr-syn-defnyddio-darpariaeth-pru-ac-eotas.pdf</a>
T.B.9 Data a gwybodaeth	Casglu a lledaenu data am ganlyniadau disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Caeredin; A21) Cryfhau'r canllawiau i Awdurdodau Lleol ac ysgolion ynghylch y gofyniad i gadw cofnodion o niferoedd y disgyblion sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n mynd yn eu blaen i ddod yn NEET (Estyn 2016: A1)	Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Gyrfa Cymru a'r Awdurdodau Lleol i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer gwella'r ffordd y caiff data eu casglu gan gyn ddysgwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol i ddynodi ymyriadau effeithiol a llywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.	Mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal er mwyn edrych ar yr opsiynau ar gyfer gwella'r data a gesglir gan gyn-ddisgyblion EOTAS. Mae cyfarfodydd pellach ar y gweill gyda rhanddeiliaid.
T.B.10	Gweithio gyda'r consortia i sicrhau bod anghenion	Dylai Llywodraeth Cymru weithio	Ers mis Ionawr 2018, mae cynghorwyr strategol wedi'u penodi ar

Eraill	Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y consortia (CCfW: A1) Gweithio gyda'r consortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (Estyn 015: A7)	gyda'r consortia rhanbarthol i asesu'r gofynion dysgu a datblygu ar gyfer ymgynghorwyr her sy'n gweithio gydag Unedau Cyfeirio Disgyblion	gyfer y grant amddifadedd disgyblion (PDG). Bydd pob cynghorydd yn gyfrifol am maes penodol. Bydd un o'r pedwar cynghorydd strategol yn gyfrifol am EOTAS.
T.B.11 Eraill	Diwygio'r fformiwlâu i gynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru dim ond mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A4)	Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod PDG ar gael i Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n sengl ac ystyried diwygio'r canllawiau PDG.	Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi'i ymestyn i'r holl ddisgyblion cymwys hynny sydd wedi'u cofrestru'n unigol mewn Uned Cyfeirio Disgyblion.
T.B.12 Eraill	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r broses ymgeisio ac ariannu ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r broses ariannu i sicrhau bod Unedau Cyfeirio Disgyblion (a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol eraill lle bo hynny'n briodol) yn cael eu hystyried ym midiau'r awdurdodau lleol	Mae'r cam hwn wedi ei gwblhau.  Mae cydweithwyr polisi Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif yn craffu ar achosion busnes er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r ddarpariaeth EOTAS yn cael eu hystyried yn effeithiol gan awdurdodau lleol. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi ystyried cyfleusterau Unedau Cyfeirio Disgyblion ac EOTAS fel rhan o'r ail don o Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Mae'r prosiectau hyn yn amodol ar y ffaith bod y prosesau achos busnes yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus.

<b>Gweithrediad tymor canolig (T.C)</b>			
<b>Darpariaeth allweddol</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam arfaethedig</b>	<b>Update</b>
T.C.1 Paneli mynediad	Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau i hybu gwaith consortiwm effeithiol ar lefel awdurdodau lleol i rannu strategaethau ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A12) Dylid casglu a lledaenu enghreifftiau o strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A20)	Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau anstatudol ar sefydlu paneli Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn awdurdodau lleol yn ogystal â gweithdrefnau atgyfeirio ac ailintegreiddio.	Bydd y gwaith o ddrafftio canllawiau atgyfeirio a chomisiynu yn dechrau yn hydref 2019, ar ôl cael yr ymchwil i'r dulliau presennol o gomisiynu darpariaeth EOTAS. Bydd ymgynghoriad ar y canllawiau yn 2020.
T.C.2 Fframwaith comisiynu	Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9)	Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau anstatudol am ddatblygu fframweithiau comisiynu a gofynion ansawdd y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n cynnwys monitro lleoliadau'n barhaus.	Bydd y gwaith o ddrafftio canllawiau atgyfeirio a chomisiynu yn dechrau yn hydref 2019, ar ôl cael yr ymchwil i'r dulliau presennol o gomisiynu darpariaeth EOTAS.
T.C.3 Fframwaith comisiynu	Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9)	Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframweithiau comisiynu gan gynnwys dynodi ysgolion annibynnol sydd heb eu cofrestru	Bydd y gwaith o ddrafftio canllawiau atgyfeirio a chomisiynu yn dechrau yn hydref 2019, ar ôl cael yr ymchwil i'r dulliau presennol o gomisiynu darpariaeth EOTAS.
T.C.4 Cymorth i'r pwyllgorau rheoli	Gweithio gyda'r consortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (estyn 2015: A7) Gwneud pwyllgorau rheoli'n statudol a chyhoeddi canllawiau ategol (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A8)	Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer helpu i deilwra a darparu modiwlau hyfforddi penodol i Unedau Cyfeirio Disgyblion yng nghyswllt rhanddeiliaid y sector cyhoeddus.	Bydd Estyn yn cynnal adolygiad cylch gwaith i effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i nodi'r anghenion hyfforddi.

T.C.5 Cymorth i'r pwyllgorau rheoli	Gwneud pwyllgorau rheoli'n statudol a chyhoeddi canllawiau ategol (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A8)	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Awdurdodau Lleol i wella adnoddau mewn ffordd gynaliadwy megis dysgu proffesiynol, seilwaith MIS, hyfforddiant i bwyllgorau rheoli ac ati.	Mae rheoliadau a gyflwynwyd yn 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Uned Cyfeirio Disgyblion gael pwyllgor rheoli. Bydd Estyn yn cynnal adolygiad cylch gwaith i effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli. Bydd hyfforddiant yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.
T.C.6 Data a gwybodaeth	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Dylai Llywodraeth Cymru ac Estyn ddatblygu protocol ac amserlen newydd ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth	Byddwn yn bwrw ati gyda'r gwaith yn 2020.
T.C.7 Data a gwybodaeth	Parhau â'r broses ar gyfer cofrestru a datgofrestru Unedau Cyfeirio Disgyblion a'i hailgadarnhau drwy archwilio darpariaeth yr Awdurdodau Lleol yn rheolaidd (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A7)	Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau anstatudol am weithdrefnau agor a chau Unedau Cyfeirio Disgyblion	Bydd y gwaith drafftio yn cychwyn ym mis Medi 2019, a'r ymgynghoriad yn digwydd yn 2020.
T.C.8 Data a gwybodaeth	Cynnig canllawiau clir am gofrestru a monitro cynnydd disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Caeredin: A9)	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gweithdrefnau safonol, gan newid rheoliadau cofrestru disgyblion yn gefn i hynny, ar gyfer cofrestru dysgwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Bydd canllawiau ar gofrestru cyffredinol yn cael eu cynnwys yn y canllawiau atgyfeirio a chomisiynu. Bydd y gwaith drafftio yn cychwyn yn ystod hydref 2019, ar ôl cael yr ymchwil i'r dulliau presennol o gomisiynu darpariaeth EOTAS. Mae disgwyl i'r ymgynghoriad ddigwydd yn 2020.
T.C.9 Data a gwybodaeth	Datblygu fframwaith meincnodi ar gyfer gwerthuso canlyniadau a gwerth am arian (Caeredin: A15) (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A13)	Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â chasglu data gan wasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol wrth gyflwyno gweithdrefnau safonol	Mae'r gwaith hwn yn digwydd fel rhan o'r gwaith ar ddatblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd. Ar hyn o bryd edrychir ar opsiynau'n ymwneud â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>ymdrin ag effaith y ddarpariaeth EOTAS ar ddeilliannau disgyblion o ran mesurau cyrhaeddiad cyffredinol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwella ysgolion</li> <li>gwneud yr ysgolion/awdurdodau lleol oedd â disgyblion EOTAS ar eu cofrestr yn atebol.</li> </ul>
T.C.10 Dyfodol llwyddiannus	Sicrhau bod rôl yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn llawn yn argymhellion Donaldson (CCfW:A4)	Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â'r opsiynau posibl sy'n berthnasol i ddatgymhwyso'r cwricwlwm	Ymdrinnir â rhoi mynediad i ddisgyblion EOTAS at y cwricwlwm fel rhan o'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd y ddeddfwriaeth newydd sy'n sail i'r cwricwlwm newydd yn eglur iawn o ran y disgwyliadau ar gyfer disgyblion EOTAS.
T.C.11 Dyfodol llwyddiannus	Sicrhau bod rôl yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn llawn yn argymhellion Donaldson (CCfW:A4)	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol gyfredol ynghylch datgymhwyso'r cwrwicwlwm fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm ehangach	Ymdrinnir â rhoi mynediad i ddisgyblion EOTAS at y cwricwlwm fel rhan o'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd y ddeddfwriaeth newydd sy'n sail i'r cwricwlwm newydd yn eglur iawn o ran y disgwyliadau ar gyfer disgyblion EOTAS.
T.C.12 Cydweithio	Darparu canllawiau fframwaith am rôl Unedau Cyfeirio Disgyblion fel rhan o'r continwwm darpariaeth (Estyn 2015: A8)	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer cryfhau eto'r rhwydweithiau partneriaeth rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion a darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac Awdurdodau Lleol ac ysgolion	I roi cefnogaeth i Unedau Cyfeirio Disgyblion i ehangu'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion, bydd Llywodraeth Cymru'n ychwanegu at waith presennol sy'n annog Unedau Cyfeirio Disgyblion i gydweithio ag ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion.
T.C.13 Eraill	Nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda hwy (adolygiad o	Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau am gyfrifoldebau a	Bydd y canllawiau atgyfeirio a chomisiynu yn nodi cyfrifoldebau ysgolion pan fyddant yn atgyfeirio disgyblion i Awdurdodau Lleol ar gyfer



	Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A15)	llinellau atebolwydd ar draws y ddarpariaeth ac awdurdodau lleol gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am gofrestru.	darpariaeth, a'r cyfrifoldebau sydd gan ysgolion wrth ddarparu darpariaeth amgen i ddisgyblion.
T.C.14 Eraill	Sicrhau bod staff Unedau Cyfeirio Disgyblion yn elwa o strategaethau cenedlaethol i wella addysgu ac arweinyddiaeth (Estyn 2015: A10) Sicrhau bod y rheini sy'n darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol wrth ddatblygu elfennau newydd anghenion ymddygiad a dysgu ychwanegol a'u rhoi ar waith o fewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ymarferwyr (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A2)	Dylai Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Darparu ystyried sut y gellid helpu staff Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol, gan gynnwys arweinyddion, i ddatblygu eu gyrfa'n unol â'r cynigion a ddatblygir drwy gyfrwng yr ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth ac yng nghyswllt ag arloeswyr ac ysgolion sy'n bartneriaid.	Mae swyddogion ar hyn o bryd yn cydweithio ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i nodi niferoedd staffio Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd hyn yn llywio'r trefniadau diwygiedig ar gyfer dyrannu cyllid o £15 miliwn ar gyfer dysgu proffesiynol yn 2019-20, a fydd yn cael ei rannu drwy'r awdurdodau lleol.  Sicrhau bod gan ddysgwyr EOTAS, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, fynediad at fframwaith y cwricwlwm newydd sy'n seiliedig ar y pedwar diben. Bydd canllawiau'n cael eu datblygu i helpu ymarferwyr i ddarparu'r cwricwlwm mewn lleoliadau EOTAS.

<b>Gweithrediad tymor hir (T.H)</b>			
<b>Darpariaeth allweddol</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam arfaethedig</b>	<b>Update</b>
T.H.1 Paneli mynediad	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu swyddogaethau statudol paneli Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn deddfwriaeth sylfaenol.	Bydd ymchwil yn cael ei wneud i werthuso effaith cyflwyno chanllawiau atgyfeirio a chomisiynu. Bydd y canfyddiadau'n llywio'r drafodaeth ynghylch a yw'n angenrheidiol gwneud paneli EOTAS yn ofyniad statudol.
T.H.2 Fframwaith comisiynu	Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9)	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol sefydlu fframweithiau comisiynu	Bydd ymchwil yn cael ei wneud i werthuso effaith cyflwyno chanllawiau atgyfeirio a chomisiynu. Bydd y canfyddiadau'n llywio'r drafodaeth ynghylch a yw'n angenrheidiol ei gwneud yn ofyniad statudol i sefydlu fframweithiau comisiynu.
T.H.3 Data a gwybodaeth	Datblygu fframwaith meincnodi ar gyfer gwerthuso canlyniadau a gwerth am arian (Caeredin: A15) (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A13)	A dibynnu ar ganlyniad ystyriaethau ynghylch diwygio'r ddeddfwriaeth casglu data, bydd Llywodraeth Cymru'n diwygio'r rheoliadau presennol fel rhan o'r cynigion deddfwriaethol ehangach	Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd.
T.H.4 Dyfodol llwyddiannus	Datblygu fframwaith meincnodi ar gyfer gwerthuso canlyniadau a gwerth am arian (Caeredin: A15) (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A13)	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhagor sut y gellir mesur canlyniadau 'meddal' a'u cynnwys mewn fframwaith meincnodi i Unedau Cyfeirio Disgyblion a sut y bydd hyn yn cael ei gysoni'n briodol â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn rhan o ddiwygio'r cwricwlwm.	Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd.
T.H.5 Eraill	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu deddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys cyflwyno strwythur trefniadaethol newydd ar gyfer lleoliadau addysg a elwir ar hyn o bryd yn Unedau Cyfeirio Disgyblion	Bydd hyn yn cael ei ystyried pan fydd y camau tymor canolig wedi cael eu gweithredu.

T.H.6 Eraill	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	A dibynnu ar ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol, bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu rheoliadau i ddiwygio'r is-ddeddfwriaeth bresennol	Nid yw'r camau'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd.
T.H.7 Eraill	Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig drwy gyflwyno canllawiau statudol	Nid yw'r camau'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd.